Ar y dibyn

Croeso i fy vlog diweddara. Dw i ar Benmaen Dewi yn Sir Benfro i weld sut fath o fywyd sydd i'w gael ar y dibyn. Rydyn ni'n gwybod fod yr arfordir yn fregus ac yn agored i niwed, ond pam bod rhai arfordiroedd yn erydu'n gyflymach nag eraill?

Mae daeareg arfordir Sir Benfro yn gyfuniad o graig feddal a chraig galed. Mae craig feddal yn erydu'n gyflymach ac yn ffurfio baeau a thraethau, ac mae craig galed yn erydu'n arafach, sy'n creu pentiroedd.

Ac mae math arall o erydu sydd ddim mor rhwydd i'w weld. Mae planau haenu yn llinellau llorweddol yn y graig galed sy'n gallu cael eu herydu'n gyflym gan weithredoedd hydrolig.

Dyna pryd mae'r aer yn cael ei ddal yn yr hollt yn y graig ac yn cael ei gywasgu gan rym y tonnau, sydd dros amser yn hollti'r creigiau. Efallai eich bod chi'n meddwl bod yr arfordir yn erydu'n araf dros gannoedd o flynyddoedd, ond weithiau mae clogwyni o graig feddal yn gallu dirywio neu lithro a dymchwel.

Porthcothan, Cernyw. Cafodd y bwa môr hardd oedd yn arfer bod yma ei erydu'n llwyr gan storm yn Ionawr 2014, gan adael dim ond y graig tu ôl i fi. Ac yn yr un mis, dinistriodd y stormydd y twyni yn Aberdyfi ar arfordir gorllewin Cymru.

Felly, rydyn ni wedi gweld y difrod o ganlyniad i erydu arfordirol a'r hinsawdd, ond sut allwn ni rwystro hyn?

Dw i wedi teithio'r holl ffordd i Mappleton yn Swydd Efrog i edrych ar ffordd o ddatrys hyn. Yma, yn Mappleton, mae argorau wedi cael eu hadeiladu. Mae rhain yn gallu atal drifft y glannau a gwarchod y traeth. Ond ai codi strwythurau fel hyn yw'r ateb bob amser?

Trwy atal drifft y glannau, mae'r traethau eraill ar yr arfordir yn goddef o brinder tywod, sy'n golygu bod llai o amddiffynfa naturiol. Ac mae clogwyni - yn arbennig rhai sydd o graig feddal - yn fwy agored i erydiad arfordirol.

Felly, gyda help neu beidio, mae'r arfordir yn newid drwy'r amser.

O, mae'r batri ar fin myn...

© Copyright BBC